

CYNGOR CYMUNED LLANDDAROG COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion o gyfarfod Mis Mawrth Cyngor Cymuned Llanddarog a gynhaliwyd ar y 08/03/2017 yn Festri Porthyrhyd – 19.30yh.

Minutes of the March meeting of Llanddarog Community Council held on the 08/03/2017 at the Vestry Porthyrhyd – 19.30pm.

Presennol / Present:

Cynghorwyr / Councillors: J Youens (Cadeirydd / Chairman), T Jones, V Thomas, J Howells, W Evans, HV Williams, R Newell, S Evans & R Owen.

Clerc / Clerk & Cyfieithydd / Translator.

1.0 Ymddiheuriadau / Apologies.

Cyng/Cllrs R Jones & I Thomas.

2.0 Datganiadau o fuddiannau personol / Declarations of personal interest.

Fe wnaeth Cyng S Evans datgan diddordeb bersonol a rhagfarnol yn item agenda 11. Fe wnaeth Cyng W Evans datgan diddordeb bersonol a rhagfarnol yn item agenda 11. Fe wnaeth Cyng J Youens datgan diddordeb bersonol a rhagfarnol yn item agenda 15. Llofnodwyd y ffurflen fel y ganlyn / *Cllr S Evans declared a personal and prejudicial interest in agenda item 11. Cllr W Evans declared a personal and prejudicial interest in agenda item 11. Cllr J Youens declared a personal and prejudicial interest in agenda item 15. The form was filled accordingly.*

3.0 Adroddiad y Cadeirydd / Chairman's Report

Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r Cyfarfod / *The Chairman welcomed everyone to the Meeting.*

4.0 Cadarnhau Cofnodion cyfarfod 8/2/2017 y Cyngor / Confirmation of the minutes of Council meeting 8/2/2017.

Ar ol cynig gan y Cyng HV Williams Jones ac eilio gan Cyng V Thomas; Penderfynnwyd cadarnhau y cofnodion gan y Cyngor / *Following a proposal by Cllr HV Williams and seconding by Cllr V Thomas, it was: Resolved to confirm the minutes by the Council.*

5.0 Materion yn Codi o'r cyfarfodydd diwethaf / Matters arising from the previous meetings.

Dim / *None.*

6.0 Diweddariad ar hunan ymrestrriad / Update on auto enrolment

Fe wnaeth bod Aelod derbyn gopi o'r llythyr statudol i'r Clerc, yn ogystal a hysbyseb datganiad i'r Rheolydd Pensiynau, o flaen llaw. Fe wnaeth y Clerc gadarnhau fod cydnabyddiaeth wedi cael ei dderbyn oddi wrth y Rheolydd Pensiynau. Penderfynnwyd gymeradwyo y broses a gofyn i'r Clerc i adrodd yn ol i'r Cyngor eto fel bo'r angen - ar ol cael cyngor wrth ymgynhorwyr y Cyngor. / *Each Member had received a copy of the statutory enrolment letter to the Clerk, along with a notice of declaration to the Pensions Regulator, beforehand. The Clerk confirmed that an acknowledgement has been*

received from the Pensions Regulator. Resolved to ratify the process and ask the Clerk to report back to Council as and where appropriate following further advice from the Council's consultants.

7.0 Gohebiaeth /Correspondence.

(a) Nodwyd yr itemau isod / This below items were noted.

1 Un Llais Cymru – Cyfleuon am apwyntiadau cyhoeddus a galwad am lenor i ymgymryd â phreswyliaid llenyddol ym Mrwsel / **One Voice Wales** – *Public appointment opportunities and call for writer to undertake a literary residency in Brussels.*

2 Un Llais Cymru – Adborth wrth Pwyllgor Ardal, yn cynnwys Porth Rhyngryd defnyddiol am faterion ariannu. Hefyd cyrsiau mis Mawrth 2017 / **One Voice Wales** – *Feedback from Area Committee, including Internet portal on funding information. Also courses for March 2017.*

3 Un Llais Cymru – Siarter i Goed, Coedwigoedd a Phobl newydd – Arolwg (cau 28/2/2017) Chwefror. / **One Voice Wales** – *Charter for Trees, Woods and People – Survey (closing 28/2/2017).*

4 Llywodraeth Cymru – Fel y trafodwyd mewn cyfarfodydd blaenorol o'r Bwrdd Rhaglen, byddwn yn cynnal cyfarfod yn hwyrach eleni i drafod cynlluniau coffad y Rhyfel Byd Cyntaf yn 2018. Er myn hwyluso'r drafodaeth byddwn yn ddiolchgar iawn os gwnewch chi baratoi papur byr ar gynlluniau coffa eich sefydliad ar gyfer 2018 bydd yn cael ei gynnwys mewn papur i'w gyflwyno i Fwrdd Rhaglen Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf ar gyfer cyfarfod nesaf y Bwrdd a gynhelir ar 5 Mai. I'r perwyl hwnnw, a fydddech crystal ag anfon papur ar eich cynlluniau coffa ar gyfer 2018 at flwch post *Cymru'n Cofio Wales Remembers 1914-1918* erbyn dim hwyrach na 31 Mawrth os gwelwch yn dda. / **Welsh Government** – *As discussed in previous Programme Board meetings, we will be holding a meeting later this year to discuss First World War commemorative plans for 2018. In order to inform discussions we would be very grateful if you could prepare a brief paper on your organisation's commemorative plans for 2018 which will be included in a paper to be presented to the First World War Centenary Programme Board for its next meeting, which will take place on 5 May. To that end, could you please send a paper on your commemorative plans for 2018 to the Cymru'n Cofio Wales Remembers 1914-1918 mailbox by no later than 31 March*

5 Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr - Mae'r Bwrdd Iechyd wedi dechrau datblygu 'Fframwaith Cyflenwi' i wella iechyd, gofal iechyd a lles pobl dros 50 oed ac sy'n hŷn. Hoffem eich gwahodd i gyfrannu at ddatblygu'r Fframwaith trwy fynd i un o'r digwyddiadau i randdeiliaid / **Betsi Cadwaladr University Health Board** - *We are working with our stakeholders to develop a plan for the health improvement, healthcare and wellbeing of people aged 50+ years and later in life. We would like to invite you to contribute to the development of the framework by attending one of the Stakeholder events.*

6 Un Llais Cymru – Digwyddiad Ar y Cyd rhwng Un Llais Cymru / SLCC – 12 Gorffennaf 2017 - Village St Davids Hotel, Ewlo, Sir y Fflint a gwybodaeth am “Ynni LSI” / **One Voice Wales** – *One Voice Wales/SLCC Joint Event – 12 July, 2017 - One Voice Wales/SLCC Joint Event – 12 July, 2017 and information on “LSI Energy”.*

7 Comisiwn Ffiniau i Gymru - Mae'r Comisiwn yn mynd i cyhoeddi yr holl ymatebion a gafodd yn ystod ei ymgynghoriad cychwynnol ar y newidiadau a gynigir i etholaethau Seneddol yng Nghymru ar 28 Chwefror 2017. Mae'r lansiad yn ddechrau cyfnod statudol o bedair wythnos lle gall unigolion a

sefydliadau ddarllen yr ymatebion a wnaed gan eraill a rhoi sylwadau arnynt. Cynhelir yr ymgynghoriad rhwng 28 Chwefror a 27 Mawrth 2017. / **Boundary Commission for Wales** - *The Commission will publish all of the responses received during its initial consultation on proposed changes to Parliamentary constituencies in Wales – both written responses and those made orally at public hearings – on 28 February 2017. The launch sees the start of a statutory four week period during which individuals and organisations will be able to read and comment on the responses that others have made. The consultation will run from 28 February to 27 March 2017.*

8 Swyddfa Archwilio Cymru – Rhaglen Digwyddiadau Cyfnewidfa Arfer Da. / **Welsh Audit Office** – *Good Practice Exchange Programme Seminar.*

9 Cymunedau Tosturiol Sir Gaerfyrddin – gwahoddiad i lansiad yn y Gerddi Fotaneg ar y 31ain Mawrth 2017 / **Compassionate Communities Carmarthenshire** – *invitation to launch on 31 March 2017 in the Botanic Gardens.*

10 Llywodraeth Cymru – *Rydym wedi rhyddhau ymgynghoriad ar gylchlythyr drafft ar gyfer cynllunio safleoedd sipsiwn, teithwyr a siewmyn ac mae croeso i chi gynnig sylwadau. Y dyddiad cau ar gyfer ymateb yw 22 Mai 2017. / Welsh Government – We have released a consultation on a draft circular for the planning of gypsy, traveller and showpeople sites and you are invited to comment. The closing date for responses is 22 May 2017.*

11 Age Cymru Sir Gar – Gwahoddiad i ddathliad 30/3/2017 yng Nghaerfyrddin / **Age Cymru Sir Gar** – *Invitation to celebration 30/3/2017 in Carmarthen.*

12. Clwb Ffermwyr Ifanc Sir Gar – gwahoddiad i rali 13/05/2017 (a tocynnau) / **Carmarthenshire Young Farmers** *Invite to rally 13/5/2017 (with tickets).*

13. Cyngor Sir Gar – taliadau ar gyfer goleuadau troedffyrdd am 2017/18 (Praesept) - £3,248.15 / **Carmarthenshire County Council** – *Footway Lighting Charges for 2017/2018 (precept) - £3,248.15*

(b) Gweithredoedd yn sgil oheboiaeth / Actions resulting from correspondence:

1 Bwletin Un Llais Cymru Chwefror 2017 – Fe gyfeiriodd y Clerc yn benodol at y ffaith fod Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi cyhoeddi ei adroddiad blynyddol yn deillio o ganfyddiadau archwiliadau allanol cynghorau cymuned a thref Cymru 2015-2016. Hefyd fe wnaeth y Clerc gyfeirio at y webinar arweiniad i Gynghorau ar archwiliadau allanol 2016-2017 a gynhaliwyd ar 27 Chwefror 2017. Fe bendefynnwyd rhestri yr itemau yma ar agenda cyfarfod mis Ebrill 2017 y Cyngor. / **One Voice Wales Bulletin for February 2017** – *The Clerk referred to the fact that the Auditor General for Wales has published his annual report arising from the findings of the external audits of community and town councils in 2015-16. The Clerk also referred to a webinar which gave guidance to councils on the external audit process 2016-17 on the 27 February 2017. It was resolved that these items be listed on the agenda of the April 2017 meeting of the Council.*

2 Llywodraeth Cymru – Mae adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2017/18 sydd nawr wedi'i gyhoeddi. Fe bendefynnwyd rhestri yr item yma ar agenda cyfarfod mis Ebrill 2017 y Cyngor / **Welsh Government** - *The Independent Remuneration Panel for Wales' Annual Report for 2017/18 which has now been published. It was*

resolved that this item be listed on the agenda of the April 2017 meeting of the Council.

8.0 Dewis enillwyr gwobrau y Gymuned a'r leuenctid, yn ogystal a cadarnhau trefniadau / Determine winners of Community and Young People awards, as well as confirm arrangements.

Fe rhoddwyd ystyriaeth llawn i'r enwebau a dderbynwyd. Ar ol y broses bleidlesio, fe benderfynnwyd taw Miss Nia Thomas, Golwg y Gwendraeth, Llanddarog, fydd yn derbyn Gwobr y Gymuned; gyda Clwb Ffermwyr Ifanc, Llanddarog yn derbyn Gwobr y leuenctid. Fe wnaeth yr Aelodau gynghori ynglyn â'r wobr ac arysgrifen fel y ganlyn / *Full consideration was given to the nominations received. Following the voting process, it was resolved that Miss Nia Thomas, Golwg y Gwendraeth, Llanddarog, will receive the Community award ; with Llanddarog Young Farmers Club receiving the Youth Award. Members advised on the prize and inscription accordingly.*

9.0 Cymerdwyo y gofrestr asesiad risg corffolaethol / Ratification of the corporate risk assessment register

Fe wnaeth bob Aelod derbyn gopi o'r adroddiad o flaen llaw. Penderfynnwyd gymeradwyo yr adroddiad a gofyn i'r Clerc i fwrw ymlaen i weithredu unrhyw argymhellion gymwys sydd ynddi / *Each Member had been provided with a copy of the report in advance of the meeting. Resolved to ratify the report and ask the Clerk to proceed with any actioning the relevant recommendations contained therein.*

10.0 Aelodaeth Un Llais Cymru / One Voice Wales Membership

Penderfynnwyd adnewyddu aelodaeth ar y termau a gyflwynwyd / Resolved to renew membership on the terms presented.

11.0 Cynllunio / Planning

(A) W/35157 : CHANGE OF USE – AGRICULTURAL LAND TO HOLIDAY USE (SITING OF 15 NO. TIMBER CLADDED WIGWAM CABINS WITH ASSOCIATED ANCILLARY STRUCTURES) - NEUADD MIDDLETON GARDD FOTANEG GENEDLAETHOL CYMRU

Fe wnaeth Cyng S Evans datgan diddordeb bersonol a rhagfarnol a gadael yr ystafell am 20.25yh, heb ddychwelyd tan terfyn yr item am 20.35yh. Fe wnaeth y Cyngor ystyried llythr wrth Fferm Coedhirion, Llanddarog wnaeth codi pryderon ynglyn â lleoliad, colli incwm a cystadleuaeth anheg. Penderfynnwyd ymateb i'r gohebydd a'i cynghori i gysylltu a Cyngor Cymuned Llanarthne gan fod y datblygiad yn ei ardal nhw. Penderfynnwyd yn oygstal ymateb i'r Awdurdod Cynllunio i nodi pryderon y Cyngor ar y lefelau o gymhorthdal mae'r Gerddi wedi derbyn dros y blynyddoedd a'r potensial am cystadleuaeth anheg yn nhermau busnesau Economi Ymwelwyr Lleol. / *Cllr S Evans declared a personal and prejudicial interest and left the room at 20.25pm, not to return until the end of this item at 20.35pm. Council considered a letter from Coedhirion Farm, Llanddarog which raised issues relating to location, loss of income and unfair competition. Resolved that the Council respond to the correspondents advising that they contact Llanarthne Community Council as the development is within their area. Further Resolved that the Council contact the Planning Authority to note its concerns over the level of subsidy that the Gardens has received over the years and the potential unfair completion for local visitor economy businesses.*

(B) W/35090 PROPOSED SINGLE STOREY SIDE / REAR EXTENSION AND DETACHED GARAGE - TYRYNYS, CROSS HANDS ROAD, LLANDDAROG.

Fe wnaeth Cyng W Evans datgan diddordeb bersonol a rhagfarnol a gadael yr ystafell am 20.35yh, heb ddychwelyd tan terfyn yr item am 20.37yh. Penderfynnwyd nodi y cais yma / *Cllr W Evans declared a personal and prejudicial interest and left the room at 20.35pm, not to return until the end of this item at 20.37pm. Resolved to note this application.*

12.0 Taliadau/ Payments

Cadarnhawyd yr isod / *The below were ratified*

Rhif/Number	Dyddiad/Date	Manylion/Details	Swm/Sum
1274	13/2/17	Menter Gwasanaethau	£47.78
1275	13/2/17	Capel Bethlehem	£165
1276	14/2/17	Proprint	£6.89

13.0 Derbyniadau /Receipts

Dim/ None

14.0 Papur Gwyn: 'Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddiad' / White Paper: 'Reforming Local Government: Resilient and Renewed'

Fe wnaeth Aelodau ystyried adroddiad ysgrifenedig y Clerc a ddarparwyd o flaen llaw y cyfarfod. Fe wnaeth yr Adroddiad gwneud sylw benodol at materion a fyddai'n effeithio ar Gynghorau Cymuned, yn enwedig ymuno Cynghorau bychain. Mae'r Papur yn sôn am pwerau presennol a newydd er mwyn gyflawni yr 'agenda gweithredu'. Penderfynnwyd nodi yr item yma. / *Members considered the written report of the Clerk which had been circulated in advance of the meeting. The Report made reference to those matters that would affect Community Councils, particularly clustering of smaller Councils. The Paper discusses how existing and proposed powers can achieve the 'agenda for action'. Resolved to note this item.*

15.0 Y Cinio Flynyddol / The Annual Dinner

Fe wnaeth Cyng J Youens datgan diddordeb bersonol a rhagfarnol a gadael yr ystafell am 20.40yh, heb ddychwelyd tan terfyn yr item am 20.43yh. Fe wnaeth Cyng T Jones Gadeirio yr item yma. Fe ystyriwyd cynnig ysgrifenedig gan Cyng R Jones a ddarparwyd o flaen llaw y cyfarfod. Ar ol cynig gan HV Williams Jones ac eilio gan Cyng V Thomas Penderfynnwyd pasio cynnig Cyng R Jones a chynnal y Cinio yn y Mansel Arms, Porthyrhyd Hefyd, fe wnaeth y Cyngor gadarnhau fe fydd enllillwyr / cynrychiolwyr Gwobrau y Gymuned a'r leuencid yn cael gwhaoddiad yn ogystal, gyda'r Cyngor yn talu am ei bwyd yn unol a phwerau Adran 137. / *Cllr J Youens declared a personal and prejudicial interest and left the room at 20.40pm, not to return until the end of this item at 20.43pm. Cllr T Jones Chaired this item. Consideration was given to a written notice of motion by Cllr R Jones that had been circulated in advance of the meeting. Following a proposal Cllr HV Williams and seconding by Cllr V Thomas it was: resolved to pass the notice of Cllr R Jones and hold the dinner in the Mansel Arms, Porthyrhyd. Furthermore, the Council confirmed that the winners / representatives of the winners of the Community and Youth Awards will be invited and the price of their meals would be met in accordance with Section 137 powers.*

16.0 Strategaeth ar gyfer buddsoddiad seddau / Strategy for seating investment.

Fe wnaeth y Clerc ddarparu dyfynbrisau a lluniau ar gyfer amryw mathau o seddau. Cadarnhaodd fod angen seddau newydd ar gyfer Rose Villa, Llanddarog a ger y Ficerdi, Llanddarog. Penderfynnwyd dewis seddau plastig wedi ail gylchu (Second Life Products Wales Ltd) a fe fydd y Clerc yn nawr yn bwri ati i wneud trefniadau ar gyfer codi archeb yn y flwyddyn ariannol newydd. / *The Clerk provided quotations and prices for various types of seating. He confirmed that there was a need for new seating at Rose Villa, Llanddarog and adjacent Vicarage, Llanddarog. Resolved that re cycled plastic benches be chosen (Second Life Products Wales Ltd) and the Clerk will now proceed to making arrangements to raise an order in the new financial year.*

17.0 Newid i'r Rheoliadau Ariannol / Change to Financial Regulations

Fe wnaeth Aelodau ystyried adroddiad ysgrifenedig y Clerc a ddarparwyd o flaen llaw y cyfarfod. Mae'r adroddiad yn ymwneud a rheol 11b o'r Rheoliadau a fabwysiadwyd gan y Cyngor ar 25 Ionawr 2017. Penderfynnwyd derbyn argymhellion y Clerc a'r Arolygydd Ariannol Mewnol a newid y raddfa i £500-£3,000 fel y ganlyn. / *Members considered the written report of the Clerk which had been circulated in advance of the meeting. The report relates to regulation 11b of the Regulations adopted by the Council on the 25 January 2017. Resolved to accept the recommendations of the Clerk and the Internal Financial Examiner and amend the range to £500-£3,000 accordingly.*

18.0 Gohebiaeth ynglyn â digwyddiadau goleudy / Correspondence regarding Beacon events

Fe wnaeth Aelodau ystyried e bost a ddarparwyd o flaen llaw y cyfarfod. Penderfynnwyd nodi yr item yma. / *Members considered an e mail which had been circulated in advance of the meeting. Resolved to note this item.*

19.0 Fforwm er mwyn i Aelodau i godi adroddiadau / cwestiynau drwy'r Cadeirydd / Forum in order for Members to raise reports / questions through the Chairman

(a) Derbynnwyd adroddiad gan Cyng T Jones ynglyn â cadwyn y Cyngor. Mae'r gwaith wedi ei gyflawni, gyda Cyng T Jones wedi talu amdanynt ei hun. Penderfynnwyd talu Cyng T Jones yn ol am y swm o £65 ar gynhyrchiad derbyneb. Hefyd, fe fydd y mater o fuddsoddiad yn nghadwyn y Cyngor er mwyn greu lle ychwanegol arni yn cael ei rhestru ar agenda y Cyngor yn y dyfodol. / *A verbal report was received from Cllr T Jones in respect of repairs to the Council's chain. Works have been undertaken which Cllr T Jones has paid for himself. Resolved to reimburse Cllr T Jones the sum of £65 upon production of receipt. Furthermore, the issue of investment in the Council's chain to release further capacity will be listed on a future agenda of Council.*

(b) Fe dderbynnwyd cais i diweddarau y pecyn croeso. Penderfynnwyd fydd y Clerc yn gofyn i Mrs M Rees i diweddarau y pecyn a wedyn comisynu rhedeg copiau. Fe fydd y Clerc yn dod i'r pecyn ar y wefan yn ogystal. / *A request was received to update the welcome pack. Resolved that the Clerk ask Mrs M Rees to update the pack and then run 50 copies. The Clerk will also place it on the website.*

(c) Fe dderbynnyd cais i brynu fflag a gyfer y Côr cyn ei taith. Penderfynnwyd fyddai'r Cadeirydd yn gwneud trefniadau fel y ganlyn/ *A request was received to purchase a flag to give to the Choir ahead of their journey. Resolved that the Chairman make arrangements accordingly.*

(d) Fe dderbynnyd cais i ddodi llun cyflwynno gwobr Nigel Owens yn Neuadd Mynyddcerrig. Penderfynnwyd cefnogi'r cais / *A request was received to place a photo of Nigel Owens presentation in Mynyddcerrig Hall. Resolved to support this request.*

Mewn camera/ In camera (cyfieithydd yn gadael am 20.55yh / Translator departed at 20.55pm)

20.0 Cytundebau gwasanaeth 2017 / Service agreements for 2017

Fe wnaeth Aelodau ystyried adroddiad ysgrifenedig y Clerc a ddarparwyd o flaen llaw y cyfarfod. Fe benderfynnwyd gymerdwyo y gytundeb a gyflwynwyd eisioes ynglyn â ddarpariath cyfieithu ar y pryd, ond ni fydd angen cytundeb ffurfiol ynglyn a cynnal a chadw cyffredinol. Ynglyn â torri gwair, fe benderfynnwyd ofyn i'r Clerc geisio cael 3 dyfynbris ar sail y fanyleb a rhoddwyd yn yr adroddiad ac adrodd yn ol i'r Cyngor yn Ebrill 2017 os yn bosib. Fe wnaeth Aelodau gadarnhau yr ardaloedd y fydd angen torri gwair dymhorol yn y Gymuned. / *Members considered the written report of the Clerk which had been circulated in advance of the meeting. It was resolved to ratify the agreement for simultaneous translation as previously presented, however there will not be a need for a formal agreement in relation to general maintenance. In relation to grass cutting, it was resolved to ask the Clerk to strive to obtain 3 estimates on the basis of the specification provided in the report and report back to the Council in April 2017 if possible. Members confirmed the areas in the community that need to be subject to seasonal cutting.*

Daeth y cyfarfod i ben am 21.05 yh / The meeting finished at 21.05 pm.